# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ionawr 26, 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Eurig Williams, Rheolwr Adnoddau Dynol** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **01286 679084** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymddeoliad y Prif Weithredwr** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cytuno bod angen recriwtio a phenodi i swydd y Prif Weithredwr ar sail parhaol.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaeth statudol yn wyneb ymddeoliad deilydd presennol y swydd.

### 3 CEFNDIR A'R CAMAU NESAF ARFAETHEDIG

Mae'r Prif Weithredwr wedi hysbysu'r Cyngor o'i fwriad i ymddeol ar y 31ain o Fawrth eleni. Mae'r amserlen yn dynn ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd cyn y dyddiad ymddeol ac felly cyflwynir y cais hwn am benderfyniad ynglŷn â llenwi'r swydd allweddol hon, fel bo modd mynd rhagddo yn brydlon gyda'r trefniadau i recriwtio a phenodi unigolyn i ymgymryd a'r gwaith.

Tynnir i'ch sylw yr opsiynau sydd angen eu hystyried cyn dod i benderfyniad;

1. *Nid oes unrhyw ofyn statudol i benodi Prif Weithredwr yn bresennol*. Yn unol ag Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor ddynodi un o'i swyddogion yn "Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig" ac nid oes rheidrwydd penodi Prif Weithredwr i ymgymryd a'r rôl honno. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2020), er nad yw'r amserlen ar gyfer gweithredu wedi'i dynodi hyd yma, yn datgan y gofyn statudol ar gyfer y dyfodol i benodi Prif Weithredwr yn hytrach na Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

2. *Gellir gwahodd awdurdod arall i ddarparu gwasanaeth Prif Weithredwr*. Mae Adran 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i un awdurdod ryddhau ei swyddogion at ddefnydd awdurdod arall. Byddai hyn yn caniatáu rhannu Prif Weithredwr gydag awdurdod cyfagos. Nid wyf yn ystyried hyn yn opsiwn ymarferol yn wyneb yr heriau tymor canolig sy'n wynebu'r Cyngor hwn.

3. *Hysbysebu'r swydd yn barhaol* . Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2013 yn nodi bod angen i bob penodiad prif swyddog ar gyflog o

£100,000 neu ragor y flwyddyn gael ei hysbysebu yn allanol, oni bai fod y penodiad am gyfnod o ddeuddeg mis neu lai (h.y. penodiad dros dro). Mae hyn yn diddymu'r posibilrwydd o secondiad neu hysbyseb mewnol i'r swydd, heblaw fod yna resymau penodol iawn pam nad oes angen llenwi swydd am ragor na deuddeg mis.

Yn y cyd-destun yma, mae'r Rheoliadau yn gofyn i'r Cyngor gymryd y camau canlynol:
(a) Llunio datganiad yn manylu ar gyfrifoldebau y swydd a'r cymwyseddau ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer eu cyflawni
(b) Trefnu i'r swydd gael ei hysbysebu yn y fath fodd ag i ddod a hi i sylw rhai fydd yn gymwys i ymgeisio amdani
(c) Trefnu i gyfweld pob ymgeisydd cymwys ar y rhestr fer.

4. *Penodi am gyfnod penodol*. Nid oes raid i benodiad fod yn un parhaol; mae modd cynnig cytundeb am gyfnod penodol yn unig. Nid wyf yn awyddus i'r Cyngor ddilyn y trywydd hwn gan fy mod o'r farn bod angen sefydlogrwydd dros y blynyddoedd nesaf ac na fyddai cynnig cytundeb am gyfnod penodol yn gydnaws ag hynny.

O bwyso a mesur yr opsiynau hyn ac yn wyneb dyfodiad gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020, rwyf yn argyhoeddedig bod angen i'r Cyngor benodi Prif Weithredwr ac yn argymell, gyda golwg ar y gofynion sydd ar y Cyngor ar hyn o bryd, a'r heriau a ragwelir yn y tymor canolig, y dylid hysbysebu'r swydd ar sail parhaol.

Er gwybodaeth, rwyf yn atodi y rhestr o gyfrifoldebau a ddylai berthyn i swydd Prif Weithredwr, yn ôl yr hyn a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020. Bydd y gofynion hyn yn cael eu cyfarch fel rhan o'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer penodi Prif Weithredwr y Cyngor hwn.

Bydd modd rhoi'r trefniadau recriwtio ar waith yn fuan ond ni ragwelir y gellir penodi olynydd tan fis Mai eleni ar y cynharaf. Yn wyneb hynny, rwyf wedi cynnal trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr presennol ac mae o wedi cytuno y byddai'n fodlon ymddeol yn hyblyg ar y 31 o Fawrth gan barhau i ymgymryd a'i swyddogaeth yn rhan-amser hyd nes y bydd olynydd wedi'i b/phenodi ac o leiaf hyd at etholiad y Senedd ar y 6 o Fai, 2021

Mae'r cyfrifoldeb o dynnu rhestr fer a chyfweld yr ymgeiswyr yn disgyn ar y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gyda'r penodiad terfynol i'w gadarnhau gan y Cyngor llawn.

Bydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarfod ar yr 11eg o Chwefror er mwyn adolygu'r polisi tâl ar gyfer 2021/22 ac o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet, fy mwriad yw gofyn i'r Pwyllgor gytuno ar drefniadau ac amserlen ffurfiol yn y cyfarfod hwnnw er mwyn recriwtio a phenodi Prif Weithredwr o'r newydd.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Rwyf wedi cael cyfle i gael mewnbwn i'r adroddiad ac yn cytuno y dylai'r Cyngor symud ymlaen gyda'r broses benodi a argymhellir yn ddiymdroi.

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**
Cytunaf y dylid symud ymlaen yn ddi-oed i recriwtio a phenodi Prif Weithredwr parhaol.

**ATODIAD**

**Gofynion Adran 54 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020**

“Rhaid i Brif Weithredwr prif Gyngor—

(a) adolygu’n barhaus bob un o’r materion a bennir yn is-adran (3), a

(b) pan fo’r Prif Weithredwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gwneud adroddiad i’r Cyngor yn nodi cynigion y Prif Weithredwr mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o’r materion hynny.

(Is-adran3)

(a) y modd y cyd-gysylltir sut y mae’r Cyngor yn arfer ei wahanol swyddogaethau;

(b) trefniadau’r Cyngor mewn perthynas a;

- (i) cynllunio ariannol,
- (ii) rheoli asedau
- (iii) rheoli risg

(c) nifer a graddau’r staff sy’n ofynnol gan y Cyngor er mwyn arfer ei swyddogaethau;

(ch) trefniadaeth staff y Cyngor;

(d) penodi staff y Cyngor;

(dd) trefniadau ar gyfer rheoli staff y Cyngor (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu)”.